

Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Fron mewn Cleifion Hŷn (NABCOP)

Hysbysiad Preifatrwydd a Phrosesu Teg

Beth yw nod yr Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Fron mewn Cleifion Hŷn?

Comisiynwyd yr archwiliad hwn i werthuso ansawdd y gofal a ddarperir i fenywod 70 oed a hŷn gan wasanaethau cancer y fron yng Nghymru a Lloegr. Bydd yn archwilio pam mae'n ymddangos bod menywod hŷn sydd â chanser y fron yn cael canlyniadau gwaeth na menywod iau ac yn ymchwilio i wahaniaethau ymddangosiadol ym mhatrymau'r gofal a ddarperir i fenywod hŷn. Bydd yr Archwiliad yn archwilio'r llwybr gofal o'r diagnosis cychwynnol hyd at ddiwedd triniaeth sylfaenol, ac yn cymharu sut mae patrymau gofal cancer y fron ar gyfer menywod 70 oed a hŷn â'r menywod sy'n cael diagnosis rhwng 50-69 oed.

O ble cesglir y data cleifion?

Mae NABCOP yn defnyddio ffynonellau cyfredol o ddata cleifion sydd wedi'u casglu gan sefydliadau cenedlaethol. Ni fydd angen casglu unrhyw ddata newydd wrth gleifion unigol na staff clinigol. Y brif ffynhonnell ddata fydd setiau data y Gofrestr Ganser genedlaethol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Gwasanaethau Cofrestru Cancer cenedlaethol yn casglu gwybodaeth gyfyngedig am bawb sydd wedi cael diagnosis o ganser. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y math o ganser a'r triniaethau a dderbyniwyd, a'r wybodaeth a ddarperir gan staff meddygol sydd ynghlwm â darparu gofal.



Bydd gwybodaeth y Gwasanaethau Cofrestru Cancer yn cysylltu â setiau data arferol ysbytai i ddarparu rhywfaint o fanylion ychwanegol am driniaethau llawfeddygol (mae ysbytai yn Lloegr yn defnyddio Ystadegau Cyfnodau Ysbytai a'r ysbytai yng Nghymru yn defnyddio Data Cyfnodau Cleifion yng Nghymru). Bydd y wybodaeth hefyd yn cynnwys data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar ddyddiadau marwolaethau er mwyn i'r archwiliad allu archwilio hyd goroesiad ar ôl diagnosis o ganser. Bydd y cysylltiad data o'r gwahanol ffynonellau hyn yn cael ei wneud gan y Gwasanaethau Cofrestru Cancer.

Mae'r wybodaeth a roddir i'r Archwiliad gan y Gwasanaethau Cofrestru Cancer yn ddiennw. Nid yw manylion gofal iechyd cyffredin fel rhifau'r GIG neu wybodaeth arall a allai fod yn sensitif ac adnabod unigolion (fel cod post a dyddiad geni) wedi'u cynnwys yn y data a gyflenwir. Trosir y data i fformatau sy'n lleihau'r risg o adnabod rhywun. Er enghraifft, dyddiad geni yn cael ei drosi'n oed adeg derbyn. Y Gwasanaethau Cofrestru Cancer a'r Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd yw rheolwyr data yr archwiliad.

Rheolwr Data

Comisiynir NABCOP gan y [Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd](#) ar ran GIG Lloegr a Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Archwiliadau Clinigol a Chanlyniadau i Gleifion. Y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd yw'r rheolwr data ar gyfer y set ddata gysylltiedig heb fanylion adnabod a gyflenwir i Dîm Prosiect NABCOP i'w ddadansoddi. Mae tîm NABCOP yn cyfuno data ar unigolion gyda mathau eraill o wybodaeth a gedwir mewn cronfeydd data cenedlaethol eraill mewn ysbytai. Manylir ar hyn yn [diagram llif data NABCOP](#).

Y rheolwyr data ar gyfer y setiau data cenedlaethol unigol yw:

- Iechyd Cyhoeddus Lloegr am wybodaeth ynglŷn â chleifion sydd â chanser yn Lloegr
- Rhwydwaith Canser Cymru ynglŷn â chleifion sydd â chanser yng Nghymru
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol am y gofrestr farwolaethau
- Iechyd Cyhoeddus Lloegr am y data cemotherapi a radiotherapy
- GIG Digidol am ddata ysbytai Lloegr (Ystadegau Cyfnodau Ysbytai)

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol

Mae gan NABCOP gymeradwyaeth i brosesu gwybodaeth gofal iechyd o dan Adran 251 (cyfeirnod: 16/CAG/0079) ar gyfer pob claf dros 50 oed sydd wedi cael diagnosis o ganser y fron yng Nghymru a Lloegr. Mae mwy o wybodaeth am adran 251 ar gael fan hyn: <https://www.hra.nhs.uk/approvals-amendments/what-approvals-do-i-need/confidentiality-advisory-group/>

Cyfrinachedd cleifion a lefel y data a gesglir



Mae'r wybodaeth am gleifion sy'n cael ei derbyn a'i rheoli gan dîm NABCOP yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Rydym yn dadansoddi'r data i gynhyrchu'r wybodaeth am ofal a chanlyniadau cleifion, ac mae tîm NABCOP yn defnyddio data fel na ellir adnabod cleifion unigol.

Mae'r archwiliad hefyd yn ofalus wrth gyhoeddi gwybodaeth, gan gynnwys graffiau neu dablau fel na ellir adnabod unigolion. Er mwyn sicrhau hynny, mae'r Archwiliad yn dilyn canllawiau ar gyhoeddi ystadegau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol –

[Adolygiad o Ledaenu Ystadegau Iechyd: Canllawiau Cyfrinachedd.](#)

Rheoli data cleifion gan dîm NABCOP

Mae tîm NABCOP wedi'i lleoli yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon yn Lloegr (RCS). Mae'r RCS yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â chasglu a defnyddio data cleifion. Mae gan y RCS fesurau diogelwch llym ar waith i ddiogelu'r broses o ddefnyddio a storio gwybodaeth am gleifion fel na ellir eu hadnabod, sy'n cael ei drin yn unol â GDPR. Mae'r holl echdyniadau data heb fanylion adnabod unigolyn yn cael eu storio ar weinydd sydd wedi'i amgryptio gan gyfrinair diogel yn y RCS gyda mynediad cyfyngedig i ddadansoddwyr penodol yn nhîm prosiect NABCOP.

Gyda phwy rydym yn rhannu data?

Mae NABCOP ond yn rhannu data cleifion yn dilyn gweithdrefn lywodraethu llym i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Gall ymchwilyr wneud cais i Reolwr Data NABCOP os ydynt eisiau defnyddio data cleifion ar gyfer astudiaeth ymchwil. Mae'r ceisiadau hyn yn destun [proses gymeradwyo llym fel yr amlinellir gan HQIP.](#)



Beth os nad wyf am i'm gwybodaeth gael ei defnyddio gan yr Archwiliad?

Mae hawl gan [y Gwasanaeth Cofrestru a Dadansoddi Canser \(NCRAS\)](#) yng Nghymru a Lloegr a Rhwydwaith Canser Cymru gasglu data am gleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser. [Darperir gwybodaeth ynglŷn â sut gall cleifion optio allan o'r broses o gasglu data.](#) Mae GIG Digidol hefyd yn darparu gwybodaeth am [gleifion yn optio allan o rannu eu data iechyd a gofal cymdeithasol personol a chyfrinachol.](#)

Newidiadau i'n polisi preifatrwydd

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn gyson a byddwn wastad yn cynnwys y fersiwn ddiweddaraf ar y we-dudalen hon.

Diweddarwyd y polisi preifatrwydd ddiwethaf ar 22/05/2018.

Sut i gysylltu â ni

[Cysylltwch â ni](#) os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein polisi preifatrwydd neu wybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Gellir dod o hyd i wybodaeth am ofynion yr Archwiliad i gadw data personol yn ddiogel a beth i'w wneud i riportio mynediad diawdurdod at ddata ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk>